## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:30 – 13:30

03/07/23

Galwad Teams

| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |
|---|---|

| Yn bresennol | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Yn bresennol | | | |
| Julie Ash | JA | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Henry Bales | HB | Dirprwy Bennaeth Atal Twyll | Atal Twyll Caerdydd a'r Fro |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro | PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad, (Iechyd) | Archwilio Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Paul Evans | PE | Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Jamie Graham | JG | Cyfarwyddwr Seiber Cynorthwyol (ar gyfer eitem 3.2 yn unig) | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Martyn Lewis | ML | Arweinydd Archwilio | PCGC |
| Carwyn Lloyd-Jones | CL-J | Cyfarwyddwr TGCh | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Julie Robinson | JR | Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Michelle Sell | MS | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) |
| Ymddiheuriadau | | Teitl | Sefydliad |
| Gareth Lavington | GL | Pennaeth Atal Twyll | Atal Twyll Caerdydd a'r Fro |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Fframwaith Asesu Seiber | Fframwaith Asesu Seiber |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (DHCW) | | (FfAC) | |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | Gwasanaeth Asesu Cof (MAS) | Cytundeb Gwasanaeth Meistr |
| LINC | Rhwydwaith Gwybodaeth Labordy Cymru | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod preifat y Pwyllgor. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau absenoldeb**<br>Cafwyd ymddiheuriadau absenoldeb oddi wrth:<br>• Gareth Lavington, Pennaeth Atal Twyll | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br>Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | BUSNES Y CYFARFOD | | |
| 2.1 | **Cofnodion y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'r** cofnodion fel cofnod cywir. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 3 | ARCHWILIO, ATAL TWYLL A RISGIAU | | |
| 3.1 | **Cofrestr Risg Preifat**<br>Cadarnhaodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) statws y ddwy risg breifat ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor:-<br>• **DHCW0298** Byddai'r **oedi wrth weithredu'r rhaglen LINC** yn cael ei ddiweddaru yn eitem 4.2<br>• **DHCW0318 Cydymffurfiaeth Cynllun Iaith Gymraeg** | Sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | roedd y risg hon wedi'i derbyn gan y rhaglen a'r arweinydd Gweithredol ac roedd yn cael ei monitro'n barhaus.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI** y Gofrestr Risg Breifat ar gyfer **SICRWYDD.** | | |
| 3.2 | **Adroddiad Archwilio Mewnol ar y Cynllun Gwella Seiberddiogelwch**<br><br>Cyflwynodd Martyn Lewis, Arweinydd Archwilio (ML) y Gwelliant Seiberddiogelwch a chadarnhaodd fod yr adroddiad wedi derbyn graddfa sicrwydd ***Sylweddol***.<br><br>Roedd cynnydd yn cael ei wneud i symud y cynllun yn ei flaen gyda chamau gweithredu wedi'u nodi drwy'r broses Fframwaith Asesu Seiber (CAF).<br><br>Atgoffodd Carwyn Lloyd-Jones y Pwyllgor fod sesiwn Codi Ymwybyddiaeth o Seiber yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yn y dydd ac roedd pob Aelod Bwrdd o bob rhan o GIG Cymru wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI er SICRWYDD** y Cynllun Gwella Seiberddiogelwch | Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| 3.3 | **Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)**<br><br>Cyflwynodd Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol y Camau Archwilio ar gyfer y sesiwn breifat a thynnodd sylw at y canlynol:<br><br>• Yn y cyfarfod blaenorol roedd saith cam gweithredu a dau ohonynt wedi'u cwblhau, a adawodd bum cam gweithredu agored. Adroddwyd bod pedwar cam gweithredu yn unol â'r targed ac un cam ambr na ragwelwyd i gyrraedd y targed. Roedd y cam hwn wedi'i drafod gyda'r tîm a chytunwyd y byddai rhesymau dros yr oedi a dyddiad targed diwygiedig arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** diweddariad ar Gamau Archwilio ar gyfer **SICRWYDD**. | Nodwyd. | Cam Gweithred u |
| 3.4 | **Adroddiad Cynnydd Atal Twyll**<br><br>Rhoddodd Henry Bales, Dirprwy Bennaeth Atal Twyll (HB), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr un ymchwiliad a oedd yn cael ei gynnal.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'r** Adroddiad Cynnydd Atal Twyll | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4. | **LLYWODRAETHU** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.1 | **Adolygiad Annibynnol o Lywodraethu Rhaglen**<br><br>Cyflwynodd CD yr Adolygiad Annibynnol o Lywodraethu Rhaglen a oedd yn adolygiad a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Steve Combe MBE, cynghorydd annibynnol â phrofiad sylweddol o Lywodraethu'r GIG.<br><br>Yn ystod sesiwn Datblygu'r Bwrdd, ystyriodd y Bwrdd oblygiadau'r argymhellion yn yr adroddiad. Yn ogystal, roedd cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i drefnu ar gyfer 12 Gorffennaf 2023 i ystyried yr argymhellion yn fanylach.<br><br>Canfu'r adroddiad fod y trefniadau llywodraethu presennol yn rhy gymhleth ar gyfer rhaglenni digidol mawr a'r prif argymhellion oedd symleiddio'r trefniadau llywodraethu a sicrhau atebolrwydd cywir.<br><br>Roedd disgwyl canlyniad y cyfarfod ar 12 Gorffennaf a phe bai angen newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol, byddai Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhain cyn gynted â phosibl.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'r** Adolygiad Annibynnol o Lywodraethu Rhaglenni er **SICRWYDD.** | | |
| 4.2 | **Datrys Contract Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) – Diweddariad llafar**<br><br>Rhoddodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phrif Swyddog Masnachol (MS) ddiweddariad llafar ar Ddatrys Contract Rhaglen LINC .<br><br>Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf nad oedd y garreg filltir hollbwysig wedi'i chyrraedd ac nad oedd y cyflenwr wedi cyflwyno cynllun diwygiedig yr oedd Bwrdd Rhaglen LINC yn gallu ei dderbyn.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**DDERBYN** y diweddariad ar Raglen LINC er **SICRWYDD**. | Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| 5 | **MATERION I GLOI** | | |
| 5.1 | **Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd**<br><br>Pwyntiau allweddol a phenderfyniadau i'w hystyried:-<br><br>• Adroddiad llafar LINC<br>• Adolygiad o Lywodraethu'r Rhaglen<br>• Cynllun Gwella Seiberddiogelwch a nodi sgôr sicrwydd | Trafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sylweddol ond yr her i sicrhau cyllid rheolaidd<br>• Statws dau risg preifat.<br>• Mae ymchwiliad atal twyll yn parhau. | | |
| 5.2 | Unrhyw Faterion Brys Eraill<br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion Busnes Brys eraill. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.3 | Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf: 17 Hydref 2023<br>Daeth y cyfarfod i ben am 13:25pm. | Nodwyd | Dim i'w nodi |